



# Cylchlythyr



Parc  
Natur  
Penglais

# Newsletter

Gweler PNP ar Facebook ar [www.facebook.com/ParcNaturPenglais](http://www.facebook.com/ParcNaturPenglais)

Cylchlythyr Rhif 54

Tachwedd 2019

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** Cynhelir y CCB ar Ddydd Mercher, 27 Tachwedd 2019 am 7:30pm yng Nghanolfan Methodistaidd St Paul. Yn dilyn y CCB bydd sgwrs o dan y teitl *O'r Mynydd i'r Môr – Summit to Sea* a draddodir gan ein siaradwr gwadd Siân Stacey, Swyddog Cyswllt â'r Gymuned ar gyfer y prosiect Mynydd i'r Môr. Amcan y prosiect yw adfer ecosystemau hyfyw ac economi lleol cadarn o gopa Pumlumon lawr i'r Afon Dyfi a draw i Fae Ceredigion. Dewch i glywed am y prosiect, gan gynnwys y diweddariadau diweddaraf a chynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf. Croeso i bawb.

**Newidiadau i Bwyllgor Cefnogi PNP** Yn y CCB yn 2018 etholwyd Robert Griffiths fel Cadeirydd am y flwyddyn. Diolchodd i Len Kersley am fod yn gadeirydd dros dro dros y 18 mis blaenorol. Croesawodd y pwyllgor aelodau newydd; Chris Woodfield, a benodwyd yn y CCB a Brina Evans a Mark Carter a gafodd eu cyfethol yn ystod y flwyddyn.

**Cyllido Prosiect** Derbyniwyd grant o £1,340 gan Gyngor Tref Aberystwyth i wneud nifer o dasgau cynnal yn y Parc (gweler tudalen 3). Derbyniodd y Grŵp Cefnogi rhodd o £20 gan gwpl oedd wedi treulio'u mis mêl yn Aberystwyth ac oedd bellach yn dathlu eu penblwydd priodas aur.

**HelFa Wyau Pasg** Trefnwyd helFa wyau pasg er fudd elusen gan Radio Bronglais. Cynhaliwyd yr helFa ym mis Ebrill ac roedd llawer o blant a rhieni yno.

**Arolwg Cynefin** Gwnaeth Cyngor Ceredigion arolwg cam 1 o estyniad Brynymor yn ystod mis Awst. Adnabuwyd 4 cynefin yn yr ardal: coedwig gollddail lled-naturiol, sgrwb dwys, glaswelltiroedd niwtral wedi'u gwella'n rhannol a rhedyn di-dor.

Mae'r glaswelltiroedd niwtral a rhedyn di-dor o ddiddordeb arbennig. Mae'r Parc yn warchodfa coedwig gan y mwyaf sydd heb lawer o ardaloedd o laswellt. Byddai ceisio cadw rhai o'r ardaloedd o fudd i rywogaethau o fywyd gwyllt. Er enghraifft, mae'r glaswelltoedd yn yr ardaloedd hyn megis peisgwellett (*Festuca sp*) a gweunwellt (*Poa sp*) yn fwyd i lindys sy'n tyfu yn llwyd y ddôl neu llwyd bach y ddôl




Heb bori, nad yw'n ymarferol nac yn ddymunol i geisio atal y proses naturiol o goedwigo sy'n digwydd ar yr hen lethrau sgri ac ar draws y lethrau tuag at Ffordd Brynymor. Serch hynny, gyda chymorth gwybodaeth o'r arolygon, rheolaeth wedi'i thargedu trwy dorri â llaw neu beiriant, gellid cynnal ardaloedd o gynefin er budd rhai rhywogaethau, megis pryfaid. Gellid cyfuno'r gwaith hwn â thasgau i

ledu llwybrau, gosod bylchau rhag tân ac i gynnal golygfeydd lle darperir meinciau.

**Cofnodion blychau nyth ar gyfer 2019** Roedd yn dymor gwael arall ar gyfer yr adar sy'n bridio yn y blychau nyth yn y Parc eleni. Roedd llawer o dywydd gwlyb a dodwyd wyau'n hwyrach nag yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd yn lled amlwg felly na fyddai chwant y cywion am fwyd yn cyd-fynd â dwysedd poblogaeth y lindys. Ymhellach, byddai'r glaw trwm wedi golchi lindys ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill i'r pridd lle na chaiff eu canfod gan yr adar, sy'n bwydo o'r coed.

Meddiannwyd dim ond 18 blwch o'r 28 a ddarperir: meddiannwyd 6 gan belaeon mawr a 12 gan belaeon (glas). Mae'n anodd amcangyfrif llwyddiant oherwydd mae cywion sy'n marw'n gynnar yn cael eu tynnu o'r nyth gan eu rhieni ac mae rhai o'r cywion hwyrach yn fflwsio cyn eraill yn yr un nyth ac yn diflannu. Serch hynny, roedd yn bosibl i'r gwirfoddolwyr adrodd bod y pelaeon mawr wedi dodwy 35 wy; o'r rhain, deorwyd 29 ond dim ond 15 cyw a fflysiwyd. Canfuwyd 2 oedolyn farw ac 11 cyw farw yn y bocsys. Dodwywyd 79 wy gan y pelaeon; deorwyd 52 a fflysiwyd 39. Canfuwyd 6 chyw farw yn y blychau. Mae cyflwr gwael y menywod ar ôl gaeaf garw yn gallu esbonio'r nifer isel o gywion ac mae llwgu yw'r esboniad tebyg am fethiannau yn y nyth.



*Llwyd y Ddôl (Llun Ben Williams, Cadwraeth Glöynnod Byw)*

Pela Mawr ( <i>Great Tit</i> )			Pela ( <i>Blue Tit</i> )	
Blwyd dyn	Blychau a ddefnyddiwyd	Nifer o gywion a fflysiwyd	Blychau a ddefnyddiwyd	Nifer o gywion a fflysiwyd
2017	5	20	18	45
2018	5	15	14	87
<b>2019</b>	<b>6</b>	<b>15</b>	<b>12</b>	<b>39</b>

(Gyda diolch i Moira Convery)

**Boreau Gwyfyn** Cynhaliwyd digwyddiad canfod gwyfyn gan arbennigydd lleol Mark Carter yn y Parc ar ddau fore Sadwrn ym mis Awst. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am bwnc na wyddir llawer amdani. Ar y 2 achlysur, roedd wedi gosod trap-golau dros nos mewn encil cudd yn y goedwig ac yn y bore roedd wedi ei symud i ardal agored ar bwys y golygbwynt yn barod i'r cyhoedd gweld beth a ddaliwyd yn ystod y nos. Mae'r gwyfyn a dalwyd yn ymgartrefu ymysg rhannau o hen focsys wyau yng ngwaelod y trap; tynnwyd y rhain yn ofalus er mwyn gweld pa wyfyn oedd yno. Roedd niferoedd da yn y trap ar y ddau achlysur er roedd y tywydd yn sylweddol gwahanol ar y ddwy noson. Ar y ddau

achlysur roedd tua 10 rhywogaeth yno, i gyd yn nodweddiadol o'r cynefin coedwig. Roedd y mwyafrif yn isadain felen fawr a'r isadain felen fach, ond roedd hefyd deilrolwr, teires, carpiog tywyll, pwtyrn dwyresog, melyn y drain a gwladwr siderog.



**Lluniau o safbwyntiau penodol** Tynnir y rhain bob yn sawl blynedd yn y gwanwyn; Colin Johnston tynnodd y lluniau eleni. Mae'r rhain yn darparu cofnod ffotograffig gwerthfawr o newidiadau yn y Parc dros y blynyddoedd. Mae'r delweddau isod yn dangos ardal uwchben Ffordd y Bryn oedd yn sgri moel yn 1992 (chwith) ac sydd bellach yn eithin i gyd (de). Mae'r eithin a drysi dwys yn ardal isaf y chwarel wedi atal Colin rhag tynnu lluniau ar 3 o'r safbwyntiau penodol gan nad oedd yn bosibl eu cyrraedd bellach.

**Plannu Coed** Trefnodd grŵp cefnogi'r PNP sesiwn plannu coed yn y Parc ym mis Ionawr 2019. Roedd yn bosibl gwneud hyn gan fod rhoddion hael wedi cael eu derbyn y flwyddyn gynt gan deuluoedd yr Athro David Bateman a Mrs Mair Whitby (née Williams). Plannodd criw da o wirfoddolwyr 8 coeden safonol (pinwydden yr Alban, llwyfen, leim) a dros 90 coeden ifanc (afal sir, derw, draenen wen, coeden gyll) mewn ardaloedd rhwng Llannerch y Ffawydd a'r ffynnon. Roedd yr ardaloedd agored hyn eisoes wedi'u clirio o fasarnwydd ifanc gan Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth. Goruchwiliwyd y plannu gan Peter Drake. Mae'r rhan fwyaf o goed yn ymddangos fel eu bod wedi ymsefydlu'n dda yn ystod eu haf cyntaf yn y Parc, er roedd rhaid achub un binwydden rhag coeden draenen wen oedd wedi cwmpo arni.

**Dyddiau Gwaith a Chynhaliath yn y Parc** Roedd gwaith yn gynharach yn y flwyddyn wedi cynnwys trwsio'r giât wrth fynedfa Cae Melyn i'r Parc gan fyfyrwyr ar Gwrs Rheoli Cefn Gwlad gan y Brifysgol, ac hefyd y Prosiect Ymarferol Sgiliau Ystadau. Mae'r giât newydd a grëwyd yn y gweithdy yn defnyddio prennoedd o goeden castan oedd wedi'i thorri ar bwys fynedfa Cae Melyn.

Mae'r barrier rhaffau a godwyd ar ôl gwaith yn 2010 i ganiatáu i blanhigion atgyfodi yn ardal Llannerch y Ffawydd wedi'i thynnu o'r diwedd.

Rydym yn ddiolchgar unwaith eto i Gyngor Tref Aberystwyth am roi grant tuag at waith cynhaliath yn y Parc yr hydref a gaeaf hon. Bydd y gwaith yn anelu at gynyddu diogelwch a hygyrchedd y grisiau ar hyd ein llethrau. Mewn arolwg yn gynharach yn y blwyddyn, adnabuwyd 26 gris sydd angen eu hatgyweirio neu'u hadnewyddu. Unwaith eto, Peter Drake fydd yn arwain ar y gwaith gyda 2 ddiwrnod gwaith ar ddyddiau Sadwrn yn hwyr ym mis Tachwedd ac yn gynnar ym mis Rhagfyr, lle bydd yn goruchwyllo myfyrwyr o'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth fydd yn cyfrannu yn y gwaith. Ar ddiwrnod tebyg yn gynnar ym

mis Tachwedd, defnyddiodd gwirfoddolwyr lleol cerrig mân i lenwi grisiau oedd wedi erydu ar nifer o risiau yn yr estyniad newydd: o fynedfa Brynymor trwy'r chwarel i'r grisiau llechi ymyl y golygbwynt.

Mae'r Grŵp Cefnogi PNP wedi bod yn ffodus am nifer o flynyddoedd i allu cyflogi Peter Drake i arwain ein dyddiau gwaith. Fel contractwr gwledig a hyfforddwr gwirfoddolwyr, mae gan Peter y sgiliau ac yswiriant priodol i oruwchwylio'r gwirfoddolwyr. Gyda chymorth Peter am dros ddau ddegawd mae wedi bod yn bosibl defnyddio gwirfoddolwyr, lleol a myfyrwyr, i gynnal y parc mewn dull effeithiol iawn yn ariannol. Mae gan y goedwig ddyled mawr iddo.

Trefnir dyddiau gwaith ymhellach gyda'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth yn yr hydref a'r gaeaf, o dan oruchwyliaeth Paul Evans (Cyngor Sir Ceredigion). Ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr bydd eithin yn cael ei chlirio yn ardal y chwarel, yn arbennig ar bwys y llwybrau, yn ogystal â phrysgoedio a chlirio drysi lle bo'n briodol. Bydd tyfiant yn cael ei thorri gan ddau fetr i ledu'r llwybr rhwng ffiniau'r gerddi ac ochr y goedwig uwchben Danycoed.

Er nad yw'r man gwyrdd ar bwys mynediad Cornel y Cŵps yn rhan o'r Parc, bydd pobl sy'n cyrraedd y Parc o'r cyfeiriad hwn yn gwerthfawrogi lliwiau ychwanegol yn y gwanwyn gan y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn plannu cennin pedr yma ar ddiwedd mis hydref.

**Mynediad i Bawb** Yn dilyn y gwaith diweddar ar lwybrau i wella mynediad i Warchodfa Natur Pen Dinas, trafododd Pwyllgor Cefnogi'r PNP beth ellid gwneud i ganiatáu i bobl mewn cadair olwynion neu sydd â phram i fwynhau'r Parc. Er nad yw llawer o'r llwybrau o fewn y Parc yn addas, wrth reswm, teimlwyd bod y llwybr o PJM neu fynediad Ffordd Penglais hyd at Lannerch y Ffawydd oedd y llwybr mwyaf addas. Byddai llawer o'r llwybr ar dir y Brifysgol; byddai angen eu cynnwys nhw mewn unrhyw ddatblygiadau o'r fath.



*Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth yn clirio rhedyn ym mis Tachwedd (Llun David Kirby)*

Golygydd: Steve Cuttle (e-mail [spcuttle@btinternet.com](mailto:spcuttle@btinternet.com))

Gyda diolch i'r 'bostmyn' am ddsbarthu'r copïau print, Laurie Wright am rhoi'r cylchlythyr ar wefan y Grŵp Aberystwyth Gwyrddach ac i bwyllgor PNP am eu cyfraniadau a phrawffdarllen.

Bydd y cylchlythyr hyn ar gael yn ddwyieithog fel ffeil pdf ar <http://www.aber-gag.org.uk/>

Gyda diolch i Jeff Smith am y cyfieithiad Cymraeg.